

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad blynyddol ar berfformiad economaidd sector bwyd a diod Cymru hyd at 2016. Mae'n diweddarau'r gwerthusiad economaidd a luniwyd gan Brookdale Consulting yn 2015 oedd yn rhoi gwaelodlin y diwydiant.

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r newidiadau ers 2015 a chynnydd Cynllun Gweithredu Strategol Llywodraeth Cymru, 'Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020'.

Gan ddefnyddio data swyddogol ac amcangyfrifon y diwydiant, mae'r adroddiad yn rhoi gorolwg o'r is-sectorau o'r gwahanol rannau o'r gadwyn gyflenwi bwyd a diod yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn ystyried yr is-sectorau canlynol:

Cadwyn Cyflenwi Bwyd a Diod

Sector Blaenoriaeth Bwyd a Ffermio

Cynhyrchu Bwyd a Diod

- Is-sector Cynnyrch Becws
- Is-sector Cig a Chynnyrch Cig
- Is-sector Cynnyrch Llaeth
- Is-sector Diod
- Is-sector Grawn a Startsh
- Is-sector Bwyd Anifeiliaid
- Is-sector Ffrwythau, Llysiau a Phlanhigion
- Is-sector Bwyd Môr
- Is-sector Olew a Braster
- Is-sector Cynnyrch Arall

Is-sector Cyfanwerthu Bwyd

Is-sector Adwerthu Bwyd a Diod

Is-sector Arlwyyo

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES




Cadwyn Gyflenwi Bwyd a Diod

Crynodeb o'r Sector

Mae'r gadwyd cyflenwi bwyd a diod yng Nghymru'n:

- cynnwys cynhyrchu craidd, gweithgynhyrchu, adwerthu, cyfanwerthu ac arlwyyo sydd ddim yn breswyl
- cyflogi **223,100** (2014) i fyny o 222,400 – gweler y siart cylch
- mewn **26,765 uned busnes** (2015) i fyny o 25,860
- gyda **throsiant o £16.8bn** (2013)
- **GYC o £4.2bn** (2013) ac
- **allforio £0.264bn (2015) i lawr 13% o £0.302bn** (2014)
 - Ffrainc, Iwerddon, Sbaen, Yr Almaen a Gwlad Belg oedd y 5 prif gyrchfan
- Roedd Gwerthiant Adwerthu Bwyd a Diod yng Nghymru yn £5.5bn (2015)



Mae'r sector yng Nghymru'n cynrychioli:

- 18.4% o holl gyflogaeth Cymru
- 22.2% gyfanswm unedau busnes Cymru
- 16.2% o drosiant economi busnes heb gynnwys cyllid yng Nghymru. (Cyfartaledd y DG yw 12.7%).
- 3.7% o drosiant sector bwyd a diod y DG

Mae mwyafrif yr unedau busnes bwyd a diod yng Nghymru (70.8%) yn cyflogi llai na 5 o bobl. Mae 70 busnes yn cyflogi dros 250 o bobl, i lawr o 80 yn 2014.

Crynodeb o ystadegau Sector Bwyd a Diod Cymru

	Cymru	DG (Prydain)	Cymru fel % o'r DG (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2015	26,765	420,475	6.4%
Cyflogaeth 2014	223,100	3.907m (Prydain)	5.7% (Prydain)
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	42%	49% (Prydain)	-
Trosiant 2013	£16.8bn	£449.2bn	3.7%
GYC 2013	£4.2bn	£103.4bn	4%

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol Hawlfraint y Goron

Tueddiadau

Mae cyflogaeth drwyddi draw wedi cynyddu ychydig ers y llynedd, ond mae hyn yn cuddio gostyngiad sylweddol ym maes adwerthu a chyfanwerthu, a chynnydd sylweddol o fewn amaethyddiaeth.

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Mae nifer yr unedau busnes wedi cynyddu yn dilyn gostyngiad rhwng 2010 a 2014.

Mae proffil cyflogaeth pob un o'r is-sectorau yn wahanol iawn:

- Perchnogion yn gweithio yw 70% o'r swyddi amaeth a physgota, i lawr o 75%
- Mae 93% o'r swyddi yn rhai llawn amser yn y sector cynhyrchu, i fyny o 90%
- Mae swyddi rhan amser wedi codi o 56% i 70% ym maes adwerthu.

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



‘Sector Blaenoriaeth’ Bwyd a Ffermio

Crynodeb o'r Sector

Mae Llywodraeth Cymru'n diffinio'r 'Sector Blaenoriaeth' Bwyd a Diod fel a ganlyn:

- Cynnwys cynhyrchu craidd a gweithgynhyrchu'n unig
- **30,300 o weithwyr** heb gynnwys hunangyflogedig (2015) i fyny o 28,300 yn 2014
- ond **84,200 o weithwyr** o gynnwys yr holl weithwyr amaethyddol (2014) i fyny o 76,400
- mewn **14,155 uned busnes lleol** (2015) i fyny o 14,145 yn 2014
- gyda **throsiant o £6.1bn** (2015) i fyny o £5.8bn yn 2014 a
- **GYC o £1.55bn** (2013) i fyny o £1.37 yn 2012

Mae'r sector yng Nghymru'n cynrychioli:

- 2.5% o holl gyflogaeth Cymru
- 12.4% gyfanswm unedau busnes Cymru
- 4.6% o drosiant economi busnes heb gynnwys cyllid yng Nghymru. (Cyfartaledd y DG yw 3.7%).
- 4.3% o drosiant sector bwyd a diod y DG

Mae dros 97% o unedau busnes y sector blaenoriaeth bwyd a ffermio yng Nghymru'n cyflogi llai na 10 o bobl yn sgil cynnwys ffermydd. Mae 120 busnes mawr yn y sector, yn cyflogi dros 250 o bobl, i fyny o 95 (2015).

Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer Sector Blaenoriaeth Bwyd a Ffermio Cymru

	Cymru	DG (Prydain)	Cymru fel % o'r DG (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2015	14,155	157,505	9%
Cyflogaeth 2014 (ac eithrio hunangyflogaeth)	30,300	663,700	4.6%
Cyfran Cyflogaeth Lawn Amser	84%	84% (Prydain)	-
Trosiant 2015	£6.1bn	£142.5bn	4.2%
GYC 2013	£1.55bn	£22.2bn 33.4	4.6%
Gweithwyr gyda'r cymwysterau uchaf ar Lefel 4 ac uwch	10.8%	19.8%	-
Buddsoddiad Ymchwil a Datblygu 2013	£4m	£425m	0.9%

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol Hawlfraint y Goron

Tueddiadau

Mae cyflogaeth wedi tyfu'n gryf ers 2012.

Cafwyd ychydig o adferiad yn y nifer sydd wedi'u cyflogi mewn busnesau mawr (dros 50) yn ôl i lefelau 2010.

Cafwyd ychydig o adferiad yn nifer y busnesau mwyaf (250+ o weithwyr) ond mae nifer yr unedau busnes drwyddi draw yn weddol sefydlog ac yn is na'r lefel cyn y dirwasgiad.

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Cynhyrchu Bwyd a Diod

Crynodeb o'r Sector

Mae'r sector Cynhyrchu Bwyd a Diod yng Nghymru'n:

- cyflogi **22,100 o bobl** (2014) i lawr o 22,400 yn 2013
- mewn **555 uned busnes** (2015) i fyny o 520 yn 2014
- gyda **throsiant o £4.8bn** (2013) i fyny o £4.3bn yn 2012
- **GYC o £1.45bn** (2013)
- **174 O enillwyr Gwobr Great Taste** (2015)
- **4 cynnyrch gydag enw gwarchoddedig** - PGI Cig Oen Cymru, PGI Cig Eidion Cymru, PGI Tatws Cynnar Sir Benfro a PDO Halen Môn (2015).

Mae'r sector yng Nghymru'n cynrychioli:

- 1.7% o holl gyflogaeth Cymru
- 0.5% gyfanswm unedau busnes Cymru
- 4.6% o drosiant economi busnes heb gynnwys cyllid yng Nghymru. (Cyfartaledd y DG yw 2.5%). Cynnydd o 4.1% ar y flwyddyn flaenorol.
- 5.3% o drosiant sector bwyd a diod y DG

Mae 68% o unedau busnes cynhyrchu bwyd a diod Cymru yn cyflogi llai na 5 o bobl. Mae 30% yn cyflogi rhwng 10 a 249. Mae 20 busnes mawr yn y sector, yn cyflogi dros 250 o bobl. Mae lefelau sgiliau yn is na gweddill y DG.

Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer Sector Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru

	Cymru	DG (Prydain)	Cymru fel % o'r DG (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2015	555	10,775	5.1%
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolog neu fawr	15%	14%	-
Cyflogaeth 2014	22,100	385,454 (Prydain)	5.7%
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	93%	90% (Prydain)	-
Trosiant 2013	£4.8bn	£91bn	5.3%
GYC 2013	£1.45bn	£24.8bn	5.8%
Gweithwyr gyda'r cymwysterau uchaf ar Lefel 4 ac uwch	15%	22%	-
Cyflog Blyneddol (Cyfartaledd Cynhyrchu Bwyd) 2014	£17,426	£20,211	-
Buddsoddiad Ymchwil a Datblygu 2013	£4m	£425m	0.9%

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol Hawlfraint y Goron

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Tueddiadau

Mae **hyder busnes yng Nghymru** yn is (Mai 2016) ar 53.1 (58.6 ym Mai 2015). Mae twf wedi arafu i'w lefel wanaf ers tair blynedd, er bod Cymru ar y blaen i Loegr. Mae cynnydd mewn costau, e.e. y Cyflog Byw Cenedlaethol, costau tanwydd uwch, a'r ansicrwydd yn sgil Brexit yw'r achos.

Mae'r sector yn tyfu yn nhermau trosiant ac unedau busnes a chyflogaeth yn gostwng ychydig. Mae hyn yn awgrymu fod **cynhyrchiant y sector drwyddi draw yn cynyddu**. Mae **cynhyrchiant bwyd a diod Cymru yn parhau'n uwch na'r DG** gyda GYC y pen o £64,800 o'i gymharu â £54,700 yn y DG.

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Is-sector Cig a Chynnyrch Cig

Crynodeb o'r Sector

Mae'r sector cig a chynnyrch cig yng Nghymru'n:

- cynhyrchu 9.504m o ddefaid, 1.119m o wartheg, 25,300 o foch a 4.5m o ieir (9.739m o ddefaid, 1.103m o wartheg, 28,400 o foch a 6.3m o ieir yn 2014)
- lladd 3.41m o ddefaid, 160,000 o wartheg, 39,600 o foch a 104m o ieir (2015) (3.38m o ddefaid, 150,000 o wartheg, 32,800 o foch a 104m o ieir yn 2014)
- cynhyrchu 47,700 tonnell o gig defaid; 65,300 tonnell o gig eidion, 3,200 tonnell o gig moch a 152,000 tonnell o gig dofednod (2015) (63,900 tonnell o gig defaid; 42,600 tonnell o gig eidion, 2,600 tonnell o gig moch a 152,000 tonnell o gig dofednod yn 2014)
- cyflogi **6,600 o bobl** (2014) i fyny o 5,700 yn 2013
- mewn **65 uned busnes** (2015) yr un fath a 2014
- gyda **throsiant o £1,282m** (2013)
- **GYC o £216m** (2013)
- **yn allforio £157m o gig coch** (HCC 2015 i fyny o £90m yn 2014) gyda **chig oen yn cyfrif am £106m a chig eidion am £51m**
- **Mae ffigyrau'r HMRC yn awgrymu fod gwerth £30m o allforion cig o gwmnïau Cymru** (2015) i lawr o **£37m** (2014) Ffrainc, Iwerddon, Sbaen, Iseldiroedd a Belg oedd y 5 prif gyrchfan (2015)
- **gwerthiant adwerthu cig Cymreig o £1,059m** (2015)
- mae 57 safle wedi'i gymeradwyo gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar gyfer cig coch (59 yn 2015), 37 ar gyfer dofednod (38 yn 2015), 11 ar gyfer helgig (13 yn 2015), 11 ar gyfer helgig gwyllt (yr un fath a 2015) a
- sgoriau archwilio safleoedd ASB: 34% Da (32% yn 2015); 61% Cyffredinol Dderbyniol (56% yn 2015)
- yr is-sector mwyaf yng Nghymru o fewn cynhyrchu bwyd a diod yng Nghymru yn ôl cyflogaeth.

Mae'r sector yng Nghymru'n cynrychioli:

- 30% o holl gyflogaeth Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru
- 12% o unedau busnes Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru

Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer yr Is-sector Cig a Chynnyrch Cig

	Cymru	DG (Prydain)	Cymru fel % o'r DG (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2015	65	1,225	5.3%
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolig neu fawr (50+ o weithwyr)	23%	19%	-
Cyflogaeth 2014	6,600	73,500 (Prydain)	9%
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	97%	92% (Prydain)	-
Trosiant 2013	£1,282m	£17,087m	7.5%
GYC 2013	£216m	£2,885m	7.5%
Gwerthiannau Adwerthu 2015 Kantar Worldpanel	£1,059m	£17,285m	6.1%

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol Hawlfraint y Goron, Kantar Worldpanel

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Tueddiadau

Mae cyflogaeth wedi cynyddu'n sylweddol o 5,700 yn 2013 i 6,600 yn 2014. Mae hyn yn ail-sefydlu cig a chynnyrch cig fel y sector mwyaf o ran cyflogaeth o fewn Cynhyrchu Bwyd a Diod yng Nghymru.

Mae nifer y busnesau wedi aros yn sefydlog ar 65.

Mae cyfran y busnesau bach wedi cynyddu i 54% o 40% (llai na 9 o weithwyr).

Serch hynny, mae 23% yn gyflogwyr sylweddol, gyda dros 50 o bobl.

Mae'r sector cig yn un o'r ychydig o blith sectorau bwyd a diod Cymru sydd â busnesau mawr, sy'n cyflogi dros 250. Yn 2014, roedd 5 wedi'u cofnodi, yr un fath a 2013.

Tueddiadau'r Defnyddwyr yn y Tymor Hir

- Mae lefelau prynu cig carcass gan aelwydydd wedi gostwng 17% dros y degawd diwethaf. Mae'r gostyngiad yn fwyaf amlwg gyda chig defaid ac ŵyn, sydd ar y cyfan yn ddrutach na chigoedd eraill.
- Gwelwyd cynnydd drwyddi draw yn y cig iâr gaiff ei fwyta, ond gostyngiad yn y dofednod eraill, megis twrci.
- Mae lefelau bwyta cynnyrch fel pate, selsig deli a phasteiod cig wedi cynyddu dros yr un cyfnod.
- Gwelwyd rhywfaint o adferiad yn ddiweddar mewn prynu cig a phrydau parod, o bosib yn adlewyrchu cynnydd mewn gwariant ar ôl y dirwasgiad.

Cyfartaledd Prynu Cig a Chynnyrch Cig gan Aelwydydd (gram yr unigolyn yr wythnos)

	Cymru			DG		
	2002/03	Cyfartaledd 2012/14	% newid	2002/03	Cyfartaledd 2012/14	% newid
Cig Carcas	222	184	-17%	230	192	-17%
Cig Eidion a Chig Llo	102	89	-13%	118	89	-25%
Cig Oen a Chig Dafad	59	34	-43%	51	33	-35%
Cig Moch	61	60	-2%	61	55	-10%
Cig a Chynnyrch Cig ac eithrio Cig Carcas	848	807	-5%	820	788	-4%
Cig Iâr heb ei goginio	151	175	16%	165	186	13%
Selsig	64	56	-13%	57	59	4%
Prydau parod a chynnyrch cig cyfleus	161	183	14%	157	166	6%

Ffynhonnell: DEFRA, Ystadegau Bwyd Teulu

Data Kantar

- Cyfanswm gwariant Cymru ar gig ffres oedd £362m yn y flwyddyn hyd at Fai 2015, 1.1% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, gyda defnyddwyr unigol yn prynu gwerth £218 o gig ffres bob blwyddyn.
- Prynwyd £121m o gig eidion ffres mewn safleoedd adwerthu yng Nghymru yn y flwyddyn hyd at Fai 2015, £36m o gig oen a £47m o gig moch.
- Mae tyfiant cryf wedi bod yng ngwerth y farchnad byrgyrs a griliau oer, gan weld cynnydd o 46% ers 2013, i £15m.
- Y gwariant adwerthu ar ddofednod a gêm ffres yng Nghymru oedd £171m, 1.1% yn is na'r flwyddyn flaenorol, ond yn dal 4.3% yn uwch na 2013.

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Is-sector Cynnyrch Becws

Crynodeb o'r Sector

Mae'r sector cynnyrch Becws yng Nghymru'n:

- cyflogi **5,400 o bobl** (2014) i lawr o 5,900 yn 2013
- mewn **180 uned busnes** (2015) i fyny o 155 yn 2014
- gyda **throsiant o £652m** (2013)
- **GYC o £283m** (2013)
- **Gwerthiant adwerthu Cymreig o £510m** (2015)
- yr ail is-sector mwyaf o fewn cynhyrchu bwyd a diod yng Nghymru o safbwynt swyddi

Mae'r sector yng Nghymru'n cynrychioli:

- 24% o holl swyddi Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru
- 32% o unedau busnes Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru

Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer Is-sector Becws Cymru

	Cymru	DG (Prydain)	Cymru fel % o'r DG (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2015	180	3,360	5.4%
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolog neu fawr (50+ o weithwyr)	8%	10%	-
Cyflogaeth 2014	5,400	95,810 (Prydain)	5.6%
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	90%	86% (Prydain)	
Trosiant 2013	£652m*	£11,427	5.7%
GYC 2013	£283m*	£4,792m	5.9%
Gwerthiannau Adwerthu Cymru	£509m	£8.6bn (Prydain)	6%

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol Hawlfraint y Goron, Kantar Worldpanel

* cyfrifwyd trwy luosi trosiant a GYC i bob gweithiwr y DG 2009 gyda chyflogaeth Cymru ac addasu i lefelau 2013 gan ddefnyddio'r twf yng nghynhyrchiant y sector bwyd

Tueddiadau

Cafwyd gostyngiad mewn cyflogaeth yn y flwyddyn bresennol, ond mae trosiant wedi cynyddu yn sgil cynhyrchiant uwch yn y sector.

Mae mwyafrif helaeth y busnesau (75%) yn rhai micro, gyda llai na 9 o weithwyr, i fyny o 71%.

Mae'r rhai sy'n cyflogi dros 50 o bobl wedi gostwng o 10% i 8% gan fod nifer yr unedau busnes wedi cynyddu o 155 i 180.

Tueddiadau Tymor Hir Defnyddwyr

Dros y ddegawd ddiwethaf, cafwyd gostyngiad o 20% yn y bara a ddefnyddir gan aelwydydd, gyda gostyngiad o 43% mewn gwerthiant bara gwyn. Mae cynnydd bychan wedi bod i rai mathau arall o fara, yn cynnwys bara crefft a bara'r byd.

Yn 2014, parhaodd bara i weld gostyngiad wrth i gategoriâu eraill sefydlogi.

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Cyfartaledd Prynu Bara a Chynnyrch Becws gan Aelwydydd (gram yr unigolyn yr wythnos)

	Cymru			DG		
	2002/03	Cyfartaledd 2012/14	% newid	2002/03	Cyfartaledd 2012/14	% newid
Bara	821	590	-28%	757	603	-20%
Cacennau, Byns a Phastai	154	147	-5%	164	150	-9%
Bisgedi a Thafelli Cras	167	156	-7%	174	165	-5%

Ffynhonnell: DEFRA, Ystadegau Bwyd Teulu

Data Kantar

- Roedd y gwariant adwerthu ar gynnyrch becws yng Nghymru yn £315m yn y flwyddyn hyd at Fai 2015, ychydig yn uwch na 2014, ond 2.6% yn is na 2013. Mae defnyddwyr yn gwario llai ar gynnyrch becws (lawr 5% i £183.61 y flwyddyn) ac yn prynu cynnyrch yn llai aml nag yn 2013.
- Mae'r farchnad fisgedi wedi parhau'n sefydlog, 1.4% yn uwch yn 2015 na'r flwyddyn flaenorol – gyda chynnydd yng ngwerth bisgedi sawrus, trêt arbennig a phastai tostio yn gwneud i fyny am ostyngiad yng ngwerthiant bisgedi siocled a bisgedi tymhorol. Roedd y gwariant adwerthu ar fisgedi yng Nghymru'n £159m yn y flwyddyn hyd at Fai 2015.

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Is-sector Diod

Crynodeb o'r Sector

Mae'r is-sector diod yng Nghymru yn:

- cynnwys cwrw, seidr, wisgi, dŵr a diodydd meddal
- cyflogi **1,900 o bobl** (2014) i fyny o 1,500 yn 2013
- mewn **85 uned busnes** (2015) i fyny o 75 yn 2014 er bod amcangyfrifon y diwydiant yn awgrymu 171 sy'n amlinellu twf sylweddol mewn busnesau bach
- gyda **throsiant o £596m** (2013)
- a **Gwerthiannau Adwerthu Cymru o £1,090m** (2015)
- **GYC o £285m** (2013) a
- **Allforion o £9.3m** (2015) i fyny o **£8.8m** (2014) Ffrainc, Gogledd America, Asia, Iwerddon a'r Iseldiroedd oedd y 5 prif gyrchfan (2015).

Mae'r sector yng Nghymru'n cynrychioli:

- 8.6% o holl gyflogaeth Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru
- 15.3% o unedau busnes Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru

Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer yr Is-sector Diod

	Cymru	DG (Prydain)	Cymru fel % o'r DG (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2015	85	1,800	4.7%
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolog neu fawr (50+ o weithwyr)	7%	8%	-
Employment 2013	1,900	38,030 (Prydain)	5%
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	94%	92% (Prydain)	-
Trosiant 2013	£608m	£13,881m	4.4%
GYC 2013	£285m	£4,603m	6.2%
Gwerthiannau Adwerthu 2015 Kantar Worldpanel	£1,090m	£29,820	3.7%

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol Hawlfraint y Goron, Kantar Worldpanel

Tueddiadau

Mae cyflogaeth bellach wedi tyfu o Sylfaen sefydlog o 1,500 y 1,900.

Mae nifer y busnesau wedi parhau i dyfu, gan gyrraedd 85, er bod hyn yn is nac amcangyfrif y diwydiant.

Mae gan 70% o'r busnesau lai na 10 o weithwyr, i fyny o 67%.

Ni does unrhyw fusnes bellach yn y category 50-249 o weithwyr.

Tueddiadau'r Defnyddwyr yn y Tymor Hir

Gwelwyd cynnydd cryf yn lefelau prynu dŵr mwynol a dŵr ffynnon gan aelwydydd ledled y DG, i fyny 45% ers 2003.

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Ym maes diodydd meddal, mae gwerthiant diodydd kalori isel wedi cynyddu'n ddramatig, gyda diodydd meddal crynodedig (sgwash) i fyny 131% dros y ddegawd, a diodydd eraill i fyny 28%. Yr un pryd, gwelwyd gostyngiad mewn diodydd sydd ddim yn rhai kalori isel - 45% i sgwash a 18% i eraill.

Cyfartaledd Prynu Diodydd gan Aelwydydd (ml yr unigolyn yr wythnos)

	Cymru			DG		
	2002/03	Cyfartaledd 2012/14	% newid	2002/03	Cyfartaledd 2012/14	% newid
Dŵr Mwynol neu Ddŵr Ffynnon	232	230	-1%	210	304	45%
Diodydd Meddal	1,767	1,631	-8%	1,757	1,643	-6%
Diodydd Alcoholig	759	622	-18%	726	703	-3%

Ffynhonnell: DEFRA, Ystadegau Bwyd Teulu

Data Kantar

- Y gwariant adwerthu ar alcohol yng Nghymru yn y flwyddyn hyd at Fai 2015 oedd £714m, 3.6% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Roedd gwariant ar gwrw a lager i lawr 5.8% i £131m, ond cynyddodd gwariant ar win 3.6% i £257m, a 7.7% ar wirodydd i £221m.
- Cynyddodd gwariant ar ddŵr 12% i £23m, ac arhosodd diodydd oder yn gyson ar £48m.

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Is-sector Laeth

Crynodeb o'r Sector

Mae gan y sector Laeth yng Nghymru:

- 290,000 o wartheg laeth mewn 1,760 buches (273,600 o wartheg laeth mewn 1,790 buches yn 2014).
- cynhyrchu 1,801m litr o laeth y flwyddyn (1,671m yn 2014)
- cyflogi **1,000 o bobl** ym maes prosesu (2014) i lawr o 1,600 yn 2013
- mewn **55 uned busnes** (2015) yr un fath a 2014
- gyda **throsiant o £596m** (2013)
- **GYC o £117m** (2013)

Mae gan y sector Wyau yng Nghymru

- **1.6m o ieir** ar gyfer cynhyrchu wyau (2.1m yn 2014), 80% yn cynhyrchu wyau maes
- gan gyfrif am 4.4% o gyfanswm ieir y DG (5.7% yn 2014), ond gyda chyfran uwch o wyau maes.

Mae gan y sector Laeth ac Wyau ar y cyd:

- **werthiant adwerthu Cymreig o £680m** (2015)
- **Allforion gwerth £109.5m** (2015) i lawr o £145m (2014) – Iwerddon, Ffrainc, Gwlad Belg, Yr Almaen a'r Eidal oedd y 5 prif gyrchfan (2015)
- 75 safle wedi'u cymeradwyo gan yr ASB (2016 i lawr o 88 yn 2015) ond
- nid yw hynny'n cynnwys ffermio laeth neu brosesu ar fferm o fewn busnes fferm sy'n bodoli

Mae'r sector yng Nghymru'n cynrychioli:

- 4.7% o holl gyflogaeth Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru
- 10% o unedau busnes Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru

Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer Is-sector Laeth Cymru

	Cymru	DG (Prydain)	Cymru fel % o'r DG (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2015	55	730	7.5%
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolig neu fawr (50+ o weithwyr)	18%	15%	-
Cyflogaeth 2014	1,000	20,463 (Prydain)	5.1%
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	88%	91% (Prydain)	-
Trosiant 2013	£596m	£10,015m	6%
GYC 2013	£117m	£1,905m	6.1%
Gwerthiannau Adwerthu 2015 Kantar Worldpanel	£680m	£11,555m	5.9%

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol Hawlfraint y Goron, Kantar Worldpanel

Tueddiadau

Mae cyflogaeth wedi parhau i ostwng 1,600 i ychydig dros 1,000 yn 2014. Serch hynny, mae nifer yr unedau busnes wedi parhau'n sefydlog a throsiant wedi cynyddu yn sgil gwell cynhyrchiant ym maes prosesu laeth.

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Mae mwyafrif helaeth y busnesau yn rhai micro neu fach, er bod tua 20% yn cyflogi dros 50.

Mae nifer yr ieir sy'n dodwy wedi gostwng yn sylweddol i 1.6m i lawr o uchafbwynt yn 2014 o 2.1m. Tra mai cipolwg yn unig a geir gan y cyfrifiad blynyddol, gall hyn adlewyrchu rhai ffermwyr yn gadael y sector wyau yn sgil gorgyflenwi. Mae gan Gymru gyfran llawer uwch o ieir maes yn dodwy na chyfartaledd y DG.

Tueddiadau'r Defnyddwyr yn y Tymor Hir

Mae lefelau prynu llaeth a chynnyrch llaeth (ac eithrio caws) yng Nghymru wedi gostwng ers 2002/03, i lawr 8%. Serch hynny, mae lefelau prynu llaeth hanner sgim wedi cynyddu 19%, ac iogwrt i fyny 18%.

Mae lefelau prynu caws wedi cynyddu yng Nghymru dros y ddegawd, i fyny 3%, a lefelau prynu wyau wedi parhau'n gyson. Gwelwyd gostyngiad gyda menyn yng Nghymru, sy'n groes i duedd y DG, lle gwelwyd defnydd menyn yn cynyddu yn ôl tuag at lefelau'r 1990au.

Cyfartaledd Prynu Cynnyrch Llaeth gan Aelwydydd (gram yr unigolyn yr wythnos)

	Cymru			DG		
	2002/03	Cyfartaledd 2012/14	% newid	2002/03	Cyfartaledd 2012/14	% newid
Llaeth a Chynnyrch Llaeth (ac eithrio caws) <i>ml yr unigolyn yr wythnos</i>	2,122	1,947	-8%	2,006	1,897	-5%
Llaeth Sgim (hanner sgim a sgim)	1,151	1,368	19%	1,085	1,224	13%
Iogwrt a Fromage Frais	146	172	18%	163	191	17%
Hufen	18	21	15%	20	23	15%
Menyn	44	35	-21%	37	42	13%
Caws	100	103	3%	112	113	1%
Wyau*	2	2	0%	2	2	0%

* rowndio i'r wŷ cyfan agosaf

Ffynhonnell: DEFRA, Ystadegau Bwyd Teulu

Data Kantar

- Roedd gwariant adwerthu Cymru ar gynnyrch llaeth yn £613 miliwn yn y flwyddyn hyd at Fai 2015, ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol. O hynny, roedd y farchnad caws yn werth £156m, llaeth £190m, iogwrt £85m a menyn £44m.
- Roedd cyfanswm y gwariant ar laeth 3.4% yn is na'r flwyddyn flaenorol, er gwaethaf cynnydd o 2.8% mewn cyfaint, sy'n amlinellu effaith cystadleuaeth ymhlith adwerthwyr ar bris llaeth i'r defnyddiwr.
- Gwelwyd cynnydd o 2.4% yng ngwerth y farchnad iogwrt, ac i fyny 6.5% ers 2013, gyda defnyddwyr unigol yn gwario £31.94 ar iogwrt bob blwyddyn.
- Mae 74% o aelwydydd yn prynu menyn, a gwelwyd cynnydd cryf yng ngerth y farchnad, i fyny 5.9% yn y flwyddyn hyd at Fai 2015, a 9% yn uwch na 2013.
- Roedd gwariant adwerthu ar wyau yn £48m yng Nghymru yn 2015, 1.9% yn is na 2014.
- Roedd cyfanswm yr wyau a brynwyd 9% yn uwch na 2014. Mae'r cynnydd yn y cyfanswm a'r lleihad mewn gwariant yn adlewyrchu'r gystadleuaeth ar lefel adwerthu.



Is-sector Grawn a Startsh

Crynodeb o'r Sector

Mae gan yr is-sector Grawn a Startsh yng Nghymru:

- **87,500 hectar** o dir ar gyfer cynydu â, i fyny o 85,000 yn 2014, sy'n **6%** o'r tir amaethyddol a ddefnyddir, o'i gymharu â 43% yn Lloegr (2015) yr un fath a 2014
- gwenith yw'r prif gnwd â, sy'n cyfrif am 25% o ddefnydd tir, gyda haidd gwanwyn a gaeaf yn dilyn, gan gyfrif am 25% (2015) i fyny o 24% yn 2014
- cyflogi **900 o bobl** (2014) i lawr o 1,100 yn 2013
- mewn **10 uned busnes** (2015) yr un fath a 2014
- gyda **throsiant o £357m** (2013)
- **gwerthiant adwerthu o £348m** (2015)
- **GYC o £97m** (2013)
- **allforion o £42.7m** (2015) i fyny o **£40.8m** (2014) Ffrainc, Iwerddon, Sweden, Gogledd America ac Asia oedd y 5 prif gyrchfan (2015) a
- mae un Melinydd o Gymru'n aelod o NABIM.

Mae'r sector yng Nghymru'n cynrychioli:

- 4% o holl gyflogaeth Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru
- 2% o unedau busnes Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru

Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer yr Is-sector Grawn a Startsh

	Cymru	DG (Prydain)	Cymru fel % o'r DG (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2015	10	230	4.3%
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolig neu fawr (50+ o weithwyr)	50%	26%	
Cyflogaeth 2014	900	10,500 (Prydain)	8.6%
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	96%	92% (Prydain)	-
Trosiant 2013	£357m	£3,354m	10.6%
GYC 2013	£97m	£882m	11%
Gwerthiannau Adwerthu 2015 Kantar Worldpanel	£348m	£5,961	6%

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol Hawlfraint y Goron, Kantar Worldpanel

Tueddiadau

Mae cyflogaeth yn y sector wedi gostwng o 1,100 i 900, ond gan barhau'n uwch na lefel 2009. Mae nifer yr unedau busnes yn sefydlog, ond mae cynhyrchiant wedi cynyddu yn y sector.

Tueddiadau'r Defnyddwyr yn y Tymor Hir

Mae lefelau prynu grawnfwyd ar gyfer brecwast wedi gostwng yn y data diweddaraf.

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Mae reis wedi tyfu'n gryf yng Nghymru ar 61% o'i gymharu â 10% yn y DG. Mae pizza hefyd wedi tyfu'n gryfach yng Nghymru.

Mae grawnfwydydd cyfleus eraill wedi tyfu'n arafach yng Nghymru.

Tra bo grawnfwydydd brechwast wedi gweld gostyngiad, mae twf cadarn wedi bod mewn ceirch a chynnyrch ceirch, sydd i fyny 90% dros y DG, a chynnydd mewn miwslï.

Cyfartaledd Prynu Grawn a Grawnfwydydd gan Aelwydydd (gram yr unigolyn yr wythnos)

	Cymru			DG		
	2002/03	Cyfartaledd 2012/14	% newid	2002/03	Cyfartaledd 2012/14	% newid
Grawnfwydydd Brechwast	135	117	-13%	132	128	-3%
Reis	46	74	61%	84	92	10%
Pasta	77	84	9%	88	89	1%
Pitsa	47	65	38%	66	79	19%
Grawnfwydydd Cyfleus Eraill (yn cynnwys byrbrydau)	66	70	6%	73	81	11%

Ffynhonnell: DEFRA, Ystadegau Bwyd Teulu

Data Kantar

- Roedd cyfanswm gwariant ar rawnfwydydd brechwast yng Nghymru i lawr 4.2% yn y flwyddyn hyd at Fai 2015, i £98m.
- Cafwyd twf cryf o 11.3%, mewn bariau grawnfwyd a ffrwythau, yn dilyn gostyngiad yn 2014, gyda chyfanswm y gwariant yn £17.7m yn 2015.
- Mae gwariant blynyddol ar basta wedi cynyddu, gyda phasta sych 8.9% yn uwch i £11.8m a ffres 8.2% yn uwch i £7m.
- Gwelodd y farchnad reis a nwdls sawrus hefyd dwf cryf, gyda gwariant i fyny 8.1% i £29m yn 2015.
- Mae'r farchnad bopcorn wedi parhau i dyfu, gyda gwariant blynyddol i fyny 21% i £3.5m yn 2015 wrth i ragor o aelwydydd brynu popcorn, i fyny o 32% yn 2013 i 41% yn 2015.

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Is-sector Bwyd Anifeiliaid

Crynodeb o'r Sector

Mae'r is-sector Bwyd Anifeiliaid yng Nghymru:

- yn cynnwys bwyd i anifeiliaid fferm, ceffylau ac anifeiliaid anwes
- cyflogi **800 o bobl** (2014) yr un fath a 2013
- mewn **30 uned busnes** (2015) yr un fath a 2014
- gyda phedwar prif fusnes bwyd anifeiliaid anwes (2015)
- gyda **throsiant o £356m** (2013)
- **gwerthiant adwerthu o £183m** (2015)
- **GYC o £95m** (2013) and
- **Allforion o £10.8m** (2015) i **fyfny o £9.7m** (ac eithrio grawnfwydydd heb eu melino) (2014) Yr Almaen, Iwerddon, Gorllewin Ewrop (tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd), Y Weriniaeth Tsiec a Sbaen oedd y 5 prif gyrchfan (2015).

Mae dwy ran o dair o'r busnesau'n fach. Ond mae'r gweddill yn cyflogi 50-249 o weithwyr. Mae dau yn aelodau o'r Pet Food Manufacturers Association.

Mae'r sector yng Nghymru'n cynrychioli:

- 4% o holl gyflogaeth Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru
- 5% o unedau busnes Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru

Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer yr Is-sector Bwyd Anifeiliaid

	Cymru	DG (Prydain)	Cymru fel % o'r DG (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2015	30	550	5.5%
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolig neu fawr (50+ o weithwyr)	17%	16%	-
Cyflogaeth 2014	800	13,100 (Prydain)	6.1%
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	94%	90% (Prydain)	-
Trosiant 2013	£356m	£6,904m	5.2%
GYC 2013	£95m	£1,789m	5.3%
Gwerthiannau Adwerthu 2015 Kantar Worldpanel	£183m	£2,544m	7.2%

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol Hawlfraint y Goron, Kantar Worldpanel

Tueddiadau

Mae cyflogaeth wedi sefydlogi rhwng 2013 a 2014 yn dilyn twf ers 2009.

Mae nifer yr unedau busnes Cymreig hefyd wedi sefydlogi. Ym Mhrydain, mae'r unedau busnes wedi gostwng yn gyson; ond gyda chyflogaeth yn cynyddu drwyddi draw, ymddengys fod y busnesau sy'n weddill yn tyfu.

Data Kantar

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



- Roedd cyfanswm gwariant adwerthu aelwydydd Cymru ar fwyd anifeiliaid yn £183m hyd at Fai 2015, 6% yn uwch na 2014.
- Roedd gwariant ar fwyd cŵn yn £57.6m, gyda £43m ar fwyd cŵn gwlyb (e.e. mewn tun) a £89m ar fwyd cath. O fewn y sector hwn, roedd gwariant ar fwydydd tretio i gŵn a chathod yn £35m, 6.6% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol.

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES




Is-sector Ffrwythau, Llysiau a Phlanhigion

Crynodeb o'r Sector

Mae'r sector ffrwythau, llysiau a phlanhigion yng Nghymru'n:

- cyfrif am 1,599 hectar o dir (1,694 yn 2014)
- cyflogi **200 o bobl** yn prosesu (2014) yr un fath a (2013)
- mewn **25 uned busnes** (2015) yr un fath a 2014
- gyda **throsiant o £38m** (2013)
- **GYC o £12m** (2013)
- **gwerthiant adwerthu o £807m (2015)**
- **allforion o £4m** (2015) i **lawr o £4.7m** (2014)
Iwerddon, Sbaen,
Asia, Gorllewin Europe (Tu allan i'r GE) a'r
Weriniaeth Tsiec oedd
y 5 prif gyrchfan (2015) ond
- nid yw'n cynnwys swyddi'n tyfu ffrwythau, llysiau a phlanhigion
- nid yw'n cynnwys prosesu craidd ar ffermydd
- nid yw data'r cyfrifiad yn cynnwys unedau bach dan 2 hectar
- Mae Garddwriaeth Cymru'n amcangyfrif nad yw 70% o weithgaredd busnesau garddwriaeth yng Nghymru wedi'i gynnwys



Mae'r sector yng Nghymru'n cynrychioli:

- 1% o holl gyflogaeth Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru
- 4.5% o unedau busnes Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru

Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer yr Is-sector Prosesu Ffrwythau a Llysiau

	Cymru	DG (Prydain)	Cymru fel % o'r DG (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2015	25	640	3.9%
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolig neu fawr (50+ o weithwyr)	0%	17%	-
Cyflogaeth 2014	200	28,400 (Prydain)	0.7%
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	93%	93% (Prydain)	-
Trosiant 2013	£38m	£6,309m	0.6%
GYC 2013	£12m	£1,984m	0.6%
Gwerthiannau Adwerthu 2015 Kantar Worldpanel	£807m	£13,891m	6%

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol Hawlfraint y Goron, Kantar Worldpanel

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Tueddiadau

Mae arwynebedd y tir garddwriaethol wedi gostwng ychydig yn 2015 ar ôl cynyddu'n raddol mewn blynyddoedd blaenorol.

Mae nifer y swyddi ac unedau busnes wedi parhau'n sefydlog yng Nghymru, tra bo Prydain wedi gweld cynnydd yn yr unedau busnes a bod cyflogaeth wedi parhau'n weddol gyson. Mae trosiant wedi gostwng ychydig.

Tueddiadau'r Defnyddwyr yn y Tymor Hir

- Cafwyd gostyngiad yn y ffrwythau a llysiau gaiff eu bwyta mewn aelwydydd dros y ddegawd ddiwethaf yng Nghymru, ac mae lefel bwyta llysiau yng Nghymru ychydig yn is na chyfartaledd y DG.
- Cafwyd gostyngiad sylweddol yn y lefelau bwyta tatws (yn enwedig tatws ffres) - o bosib wrth i lefelau bwyta carbohydradau eraill (reis a phasta) gynyddu. Mae'r gostyngiad hwn yn uwch na'r hyn a welwyd yn y DG.

Cyfartaledd Prynu Ffrwythau a Llysiau gan Aelwydydd (gram yr unigolyn yr wythnos)

	Cymru			DG		
	2002/03	Cyfartaledd 2012/14	% newid	2002/03	Cyfartaledd 2012/14	% newid
Llysiau Ffres ac wedi'u Prosesu (ac eithrio Tatws)	1,071	1,015	-6%	1,101	1,071	-2%
Tatws Ffres ac wedi'u Prosesu	1,001	730	-27%	873	723	-17%
Ffrwythau Ffres ac wedi'u Prosesu	1,026	963	-6%	1,206	1,081	-10%

Ffynhonnell: DEFRA, Ystadegau Bwyd Teulu

Data Kantar

- Roedd gwariant adwerthu ar ffrwythau, llysiau a salad yng Nghymru yn £629m yn y flwyddyn hyd at Fai 2015, 2.1% yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Tra'r oedd gwariant adwerthu ar ffrwythau 3.5% yn uwch i £277m, cafwyd gostyngiad o 7.9% mewn gwariant ar lysiau i £293m. Serch hynny, roedd cyfanswm cyfaint y llysiau a werthwyd i fyny ond gwariant cwsmeriaid unigol i lawr.
- Roedd y gwariant ar salad oer wedi'u paratoi i lawr i £17m o £18m yn 2014.

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Is-sector Bwyd Môr

Crynodeb o'r Sector

Mae gan y sector bwyd môr yng Nghymru:

- fflyd o 466 o gychod, gyda 40 dros 10m o hyd (2014) (477 cwch a 35 >10m yn 2013)
- yn glanio 9,900 tonnall o fwyd môr, gwerth £13.4m – 10.3m yn bysgod cregyn (2014) (13,300 tonnall gwerth £16.5m - £11.6m yn bysgod cregyn (2013))
- yn cynhyrchu 9,000 tonnall pellach o bysgod cregyn wedi'u ffermio, gwerth £9m, gan gyflogi 34 o bobl (2012 – dim diweddariad data, ond mae amcangyfrif y diwydiant yn awgrymu fod cynhyrchiant bellach oddeutu 6,500 tonnall).
- yn cynhyrchu 453 tonnall o bysgod eraill wedi'u ffermio, gwerth £1.44m, gan gyflogi 100 o bobl (2012 – dim diweddariad ond mae amcangyfrifon y diwydiant yn awgrymu fod y ffigwr wedi gostwng yn sylweddol)
- 57 safle wedi'u cymeradwyo gan yr ASB (65 yn 2015)
- **gwerthiant adwerthu o £142m** (2015)
- **allforion o £29.3m** (2015) i lawr o £35.6m (2014) Sbaen, Asia, Yr Iseldiroedd, Ffrainc ac Iwerddon oedd y 5 prif gyrchfan (2015)
- yn ôl data swyddogol, yn cyflogi **100 o bobl** yn prosesu (2014) mewn **10 uned busnes** (2015)
- gyda **throsiant o £18m** (2012) a **GYC o £4m** (2012)
- serch hynny, mae'r diwydiant yn amcangyfrif fod o leiaf **50 busnes prosesu bach arall** yng Nghymru gyda **throsiant cyfun o £5m ac yn cyflogi 50-100 o bobl** (2014)

Mae'r sector yng Nghymru'n cynrychioli:

- 0% o holl gyflogaeth Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru
- 2% o unedau busnes Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru

Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer Sector Proses Bwyd Môr Cymru

	Cymru	DG (Prydain)	Cymru fel % o'r DG (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2015	10	370	2.7%
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolig neu fawr (50+ o weithwyr)	0%	15%	-
Cyflogaeth 2014	100	14,670 (Prydain)	0.7%
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	87%	89% (Prydain)	-
Trosiant 2013	£18m	£2,796m	0.6%
GYC 2013	£4m	£531m	0.8%
Gwerthiant Adwerthu (2015) Kantar Worldpanel	£142m	£2,635m	5%

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol Hawlfraint y Goron, Kantar Worldpanel

Tueddiadau

Mae ystadegau'r sector yn debyg i'r flwyddyn flaenorol, er bod cyfaint wedi lleihau.

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Ychydig o fusnesau sydd, ac maent oll yn fach, yn cyflogi llai na 10.

Mae cyfanswm yr unedau busnes wedi parhau'n weddol gyson, serch hynny, mae angen gofal gan fod data am nifer yr unedau busnes yn cael ei rowndio i'r pump agosaf.

Mae ymchwil pysgod môr wedi dynodi nifer o broseswyr sydd heb eu cynnwys yn y data uchod.

Tueddiadau'r Defnyddwyr yn y Tymor Hir

Cafwyd gostyngiad yng nghyfartaledd prynu pysgod gan aelwydydd yng Nghymru, 13% yn is na 2002/3, o'i gymharu â gostyngiad o 8% yn y DG

Mae lefelau bwyta pysgod cregyn yng Nghymru wedi parhau'n sefydlog, o'i gymharu â gostyngiad o 9% ledled y DG.

Cyfartaledd Prynu Pysgod gan Aelwydydd (gram yr unigolyn yr wythnos)

	Cymru			DG		
	2002/03	Cyfartaledd 2012/14	% newid	2002/03	Cyfartaledd 2012/14	% newid
Pysgod	149	130	-13%	155	142	-8%
Pysgod Cregyn	9	9	0%	11	10	-9%

Ffynhonnell: DEFRA, Ystadegau Bwyd Teulu

Data Kantar

- Roedd gwariant adwerthu ar bysgod ffres yng Nghymru yn y flwyddyn hyd at Fai 2015 yn £62m, 10% yn uwch na 2013. Roedd gwariant ar Bysgod Cregyn 9% yn uwch na 2013, yn £8.4m.
- Roedd gostyngiad o 3% yn y gwariant ar bysgod wedi'u rhewi o'r flwyddyn flaenorol i £46.7m a physgod tun 6.6% yn is i £33.2m.



Is-sector Olew a Braster

Crynodeb o'r Sector

Mae'r sector yn rhy fach i ddatgelu unrhyw ddata busnes neu gyflogaeth.

Cafwyd allforion o £1.1m (2015) i fyny o £0.98m (2014) Gogledd America, Gwlad Pwyl, Gorllewin Ewrop (y tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd), Yr Almaen a'r Iwerddon oedd y 5 prif gyrchfan (2015).

Tueddiadau'r Defnyddwyr yn y Tymor Hir

Cafwyd gostyngiad yn y brasterau a ddefnyddir yn genedlaethol, i lawr 22% yng Nghymru yn uwch na'r DG.

Tra bo'r menyng gaiff ei fwyta wedi gostwng 20% yng Nghymru, yn erbyn twf hynod sylweddol i fargarîn (i fyny 286%), mae lefelau bwyta menyng wedi cynyddu 14% yn y DG. Yn yr un modd mae'r olew a ddefnyddir wedi cynyddu ychydig yn y DG, ond wedi gostwng sylweddol yng Nghymru

Cyfartaledd Prynu Olew a Braster gan Aelwydydd (gram yr unigolyn yr wythnos)

	Cymru			DG		
	2002/03	Cyfartaledd 2012/14	% newid	2002/03	Cyfartaledd 2012/14	% newid
Braster	198	155	-22%	190	168	-12%
Menyng	44	35	-20%	37	42	14%
Margarîn	7	27	286%	13	22	69%
Olew Llysiau a Salad	53	43	-19%	56	55	2%

Ffynhonnell: DEFRA, Ystadegau Bwyd Teulu

Data Kantar

- Cafwyd cynnydd o 9% yng nghyfanswm y gwariant adwerthu ar fenyn yng Nghymru yn y flwyddyn hyd at Fai 2015, i £44.2m, gyda thwf mewn cyfaint hefyd – yn groes i'r tuedd tymor hir.
- Roedd gwerthiant margarîn i lawr 8.1% i £40m, gyda gostyngiad o 5.6% mewn cyfaint.
- Roedd gwariant ar olew coginio i lawr 2% i £17.8m, er gwaethaf cynnydd yng nghyfaint gwerthiant.

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Is-sector Cynnyrch Bwyd Arall

Crynodeb o'r Sector

Mae'r is-sector hwn yn cynnwys busnesau yn y meysydd cynhyrchu canlynol: siwgr, coco, siocled, melysion, te, coffi a chynnyrch i gymryd lle coffi, pupur a halen a sesnin, prydau a seigiau parod, a pharatoi bwyd homogenaidd a bwyd dietegol.

Mae'r is-sector Cynnyrch Bwyd Arall yng Nghymru yn:

- cyflogi **5,300 people** (2014) i lawr o 5,500 yn 2013
- mewn **95 uned busnes** (2015) i fyny o 90 yn 2014
- gyda **throsiant o £938m** (2013)
- **gwerthiant adwerthu o £645m** (2015)
- **GYC o £347m** (2013)
- **Allforion o £27m** (2015) i **fyny o £19.3m** (2014) Gogledd America, Iwerddon, Ffrainc, Sbaen a'r Almaen oedd y 5 prif gyrchfan (2015) ac
- **mae lefel uchel o arloesi** - 7 o 15 Gwobr Great Taste Cymru 2014

Tra bo mwyafrif y busnesau yn fach, mae 21% yn cyflogi dros 50 o weithwyr, yn debyg i'r llynedd.

Mae'r sector yng Nghymru'n cynrychioli:

- 24% o holl gyflogaeth Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru, i fyny o 23%
- 17% o unedau busnes Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru, yr un fath a'r llynedd

Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer yr Is-sector Cynnyrch Bwyd Arall

	Cymru	DG (Prydain)	Cymru fel % o'r DG (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2015	95	1,800	5.3%
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolig neu fawr (50+ o weithwyr)	21%	15%	-
Cyflogaeth 2014	5,300	88,600	6%
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	92%	90% (Prydain)	-
Trosiant 2013	£938m	£16,760m	5.6%
GYC 2013	£347m	£5,986m	5.8%
Gwerthiant Adwerthu (2015) Kantar Worldpanel	£645m	£10,712m	6%

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol Hawlfraint y Goron, Kantar Worldpanel

Tueddiadau

Yn dilyn cofnod o dwf parhaus mewn cyflogaeth, cafwyd gostyngiad bychan yn 2014.

Mae'r mwyafrif, (92%) mewn cyflogaeth llawn amser, ychydig yn fwy na lefel Prydain.

Mae nifer yr unedau busnes wedi cynyddu o 90 i 95.

Mae'r cynhyrchiant uwch wedi golygu fod trosiant wedi cynyddu o £918 i £938m.

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Gwelwyd cwmp sylweddol yn y siwgr a chyffraith gaiff ei brynu, ond mae twf cryf mewn picl a saws yn cydbwysu yn erbyn hynny. Mae Cymru wedi gweld gostyngiad mewn melysion, tra gwelwyd cynnydd yn y DG.

Cyfartaledd Prynu Cynnyrch Arall gan Aelwydydd (gram yr unigolyn yr wythnos)

	Cymru			DG		
	2002/03	Cyfartaledd 2012/14	% newid	2002/03	Cyfartaledd 2012/14	% newid
Siwgr a Chyffraith	164	117	-29%	146	118	-19%
Picl a Saws	122	129	6%	123	129	5%
Melysion	142	137	-4%	127	132	4%

Ffynhonnell: DEFRA, Ystadegau Bwyd Teulu

Data Kantar

- Roedd gwariant adwerthu ar gyffraith yng Nghymru yn £10.5m yn y flwyddyn hyd at Fai 2015, i lawr 1.5%
- Roedd picl, siytni a relish hefyd i lawr i £5.6m o £6.4m yn 2013.
- Parhaodd cyfanswm y farchnad felysion siocled heb newid ar £161.3m a gwariant ar felysion siwgr yn £43.9m
- Roedd cyfanswm coginio cartref melys i lawr 2.4% i £87.9m yn y flwyddyn hyd at Fai 2015

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Is-sector Cyfanwerthu Bwyd a Diod

Crynodeb o'r Sector

Mae'r is-sector Cyfanwerthu Bwyd a Diod yng Nghymru:

- yn cyflogi **6,000 people** (2014) i lawr o 7,200 yn 2013
- mewn **660 uned busnes** (2015) i lawr o 675 yn 2014
- gyda **throsiant o £954m** (2013) a
- **GYC o £209m** (2013)

Mae'r sector yng Nghymru'n cynrychioli:

- 0.46% o holl gyflogaeth Cymru
- 0.55% gyfanswm unedau busnes Cymru

Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer yr Is-sector Cyfanwerthu Bwyd a Diod yng Nghymru

	Cymru	DG (Prydain)	Cymru fel % o'r DG (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2015	660	19,400	3.4%
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolig neu fawr (50+ o weithwyr)	3%	4.8%	-
Cyflogaeth 2014	6,000	230,100 (Prydain)	2.6%
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	87%	85% (Prydain)	-
Trosiant 2013	£954m	£108,827m	0.9%
GYC 2013	£209m	£10,434m	2%

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol Hawlfraint y Goron

Tueddiadau

Mae cyflogaeth wedi gostwng eto, ond gan barhau'n uwch na lefel 2011 oedd yn isafbwynt.

Mae nifer yr unedau busnes hefyd wedi gostwng ychydig.

Mae gan 77% o fusnesau nai na 10 o weithwyr, yr un fath a'r llynedd.

Mae 20 busnes yn y categori 50-249 o weithwyr, yr un fath a'r llynedd.

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Is-sector Adwerthu Bwyd a Diod

Crynodeb o'r Sector

Mae'r Is-sector Adwerthu Bwyd a Diod yng Nghymru yn:

- cyflogi **62,500 o bobl yn rhan amser yn bennaf** (2014) i lawr o 69,600 yn 2013
- mewn **3,745 uned busnes** (2015) i fyny o 3,635 yn 2014
- gyda **throsiant o £7,600m** (2013)
- **GYC o £1,294m** (2013) a
- **gwerthiant adwerthu o £5,463m** (Kantar 2015)

Mae'r sector yng Nghymru'n cynrychioli:

- 14% o holl unedau busnes Bwyd a Diod Cymru, yr un fath a'r llynedd
- 28% o gyfanswm cyflogaeth Bwyd a Diod Cymru i lawr o 30%

Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer yr Is-sector Adwerthu

	Cymru	DG (Prydain)	Cymru fel % o'r DG (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2015	3,745	78,810	4.7%
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolig neu fawr (50+ o weithwyr)	4.2%	4.3%	-
Cyflogaeth 2014	62,500	1.16m (Prydain)	5.4%
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	30%	37% (Prydain)	-
Trosiant 2013	£7,600m	£166,203m	4.6%
GYC 2013	£1,294m	£31,802m	4.1%
Gwerthiant Adwerthu (2015) Kantar Worldpanel	£5.463bn	£104.8bn	5.2%

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol Hawlfraint y Goron, Kantar Worldpanel

Tueddiadau

Yn dilyn adferiad, mae cyflogaeth wedi gostwng yn ôl yn sylweddol.

Lle'r oedd adferiad mewn swyddi llawn amser, mae swyddi rhan amser hefyd wedi tyfu.

Mae nifer yr unedau busnes wedi parhau i dyfu.

Mae gwerthiannau adwerthu pob is-sector yn ôl trefn gwerth yng Nghymru wedi'u crynhoi yn y tabl isod ar gyfer 2013-2015:

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Cyfanswm Gwerthiant Adwerthu yng Nghymru 2013-2015 (Kantar Worldpanel)

£000	2013	2014	2015	2015 yn erbyn 2014	2015 yn erbyn 2013
Diodydd	1,046,764	1,060,336	1,089,424	3%	4%
Cig	1,040,490	1,054,551	1,058,655	0%	2%
Ffrwythau a Llysiau	809,628	821,438	806,681	-2%	0%
Cynnyrch Llaeth	678,326	681,265	680,435	0%	0%
Becws	512,938	506,350	509,721	1%	-1%
Grawnfwydydd	337,889	343,931	348,062	1%	3%
Bwyd Anifeiliaid	174,852	172,138	183,113	6%	5%
Bwyd Môr	137,688	146,014	142,396	-2%	3%
Arall	628,426	641,229	645,106	1%	3%
Cyfanswm	5,367,000	5,427,251	5,463,592	0.7%	1.7%

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Is-sector Arlwyo

Crynodeb o'r Sector

Mae'r is-sector arlwyo'n cynnwys arlwyo nad yw'n breswyl, yn cynnwys bwytaï a chaffis, gwasanaeth bwyd, arlwywyr symudol, bwyd parod, ac arlwyo mewn digwyddiadau.

Mae'r is-sector arlwyo yng Nghymru yn:

- cyflogi **70,300 o bobl yn rhan amser yn bennaf** (2014) i fyny o 69,300 yn 2013
- mewn **8,200 uned busnes** (2015) i fyny o 7,400 yn 2014
- gyda **throsiant o £1,885m** (2013)
- **GYC o £867m** (2013)
- Amcangyfrifir fod gwariant blynyddol ar **fwyta allan o'r cartref yn £2.2bn £2.2bn** (B/G Mawrth 2015 NPD Crest)

Mae bron pob busnes yn ficro neu fach (99%) gan gyflogi llai na 50 o weithwyr, ac mae gan y sector gyfran uchel o swyddi rhan amser, yn cyfrif am 65% o swyddi, i lawr o 70%.

Mae'r sector yng Nghymru'n cynrychioli:

- 32% o gyfanswm cyflogaeth Bwyd a Diod Cymru
- 31% o unedau busnes diwydiant Bwyd a Diod Cymru

Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer yr Is-sector Arlwyo

	Cymru	DG (Prydain)	Cymru fel % o'r DG (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2015	8,200	165,420	5%
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolig neu fawr (50+ o weithwyr)	1.5%	2%	-
Cyflogaeth 2014	70,300	1,551,500 (Prydain)	4.5%
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	35%	40% (Prydain)	-
Trosiant 2013	£1,885m	£56,811m	3.3%
GYC 2013	£867m	£27,003m	3.2%

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol Hawlfraint y Goron

Tueddiadau

Mae nifer yr unedau busnes wedi cynyddu yng Nghymru yn dilyn gostyngiad bach dros y bum mlynedd ddiwethaf.

Mae cyflogaeth hefyd wedi cynyddu yn dilyn cynnydd o 7% rhwng 2009 a 2013.

Yn y DG, mae gwariant 'allan o'r cartref' wedi cynyddu 2% yn 2014, sy'n cyfateb i £50.8bn, wedi'i yrru gan brisiau uwch (1%), a chynnydd mewn ymweliadau (0.9%)¹.

¹ NPDCrest

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Cynyddodd gwariant 'allan o'r cartref' yng Nghymru 5.1% i £2.2bn, wedi'i yrru gan gynnydd mewn gwariant, gyda chynnydd yng nghyfartaledd pris yr uned (i fyny 1.5%) a nifer yr unedau a brynwyd (i fyny 3.3%)

Mae cyfran y swyddi llawn amser wedi cynyddu o 30% i 35%, er bod hyn yn is na lefel Prydain.

Ymwadiad

Lluniwyd y crynodeb hwn o ystadegau gan Brookdale Consulting rhwng Mai a Mehefin 2016.

Tra bo'r ffeithiau wedi'u gwirio'n drwyadl, ni all Brookdale Consulting na Llywodraeth Cymru gymryd cyfrifoldeb dros unrhyw ddifrod neu golled a geir yn sgil unrhyw wall anfwriadol yn yr adroddiad hwn.